175. Perfformio Golygfa Bl 6 ac iau (D)

Gwenynen Gwent

Cymeriadau: Rhonwen, Osian, Arglwyddes Llanofer
(newidiwch enwau'r plant i'ch actorion chi)

Rhonwen: Ni trwyddo! Ni trwyddo! Rwy mor falch!
Osian: Ar ôl yr holl ymarfer!
Rhonwen: Cefn syth.
Osian: Camau taclus
Rhonwen: Breichio perffaith yn y ffigwr wyth.
Osian: Gwenu trwy'r perfformiad.
Rhonwen: Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen Gwent – dyma ni'n dod! W hw!!
Osian: Bro'r Wenynen? Bzzzz! 'Dw i ddim eisiau cael fy mhigo diolch!
Rhonwen: Na Osian. Eisteddfod Bro'r Wenynen, Gwent. Dyna'r enw arni eleni.
Osian: Wyt ti eisiau clywed jôc?
Rhonwen: Dim rili...
Osian: Pam fod gwenyn yn cadw mor brysur?
Rhonwen: 'Dwi ddim yn gwybod. Pam fod gwenyn yn cadw mor brysur?
Osian: Achos eu bod nhw'n hoffi bssss nesa!
Rhonwen: Nesa! Mae'n lwcus dydyn ni ddim trwyddo yn y gystadleuaeth Stand Yp!
Osian: Na jyst y dawnsio gwerin.
Rhonwen: Rwy mor gyffrous am yr Eisteddfod! Ac mae sioe yn yr ysgol yr wythnos hon. Sioe "Mewn Cymeriad".
Osian: Sioe Mewn Cymeriad?
Rhonwen: Ie. Cymeriadau hanesyddol. Cewri ein cenedl!
Osian: Gareth Bale! Aaron Ramsey! Jess Fishlock!
Rhonwen: Nid ydy pawb sy'n enwog yn cicio pêl Osian.
*Arglwyddes Llanofer yn dod arno*

A Ll: Esgusodwch fi. Ydych chi'n siarad Cymraeg?

Osian a Rhonwen:Wrth gwrs.

A Ll: Rydw i wedi dysgu Cymraeg.

Osian: A ni hefyd.

Rhonwen: Esgusodwch fi. Pam ydych chi wedi gwisgo ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi?

Osian: Rhonwen!

A Ll: Rydw i'n gwisgo fel hyn bob dydd. Mae fy nillad wedi cael eu gwneud allan o wlân Cymreig.

Rhonwen: Rhaid bo' chi'n chwysu stecs yn yr haf.

Osian: Maen nhw'n ddillad hyfryd iawn hefyd.

A Ll: Clywais i chi'n dweud eich bod yn mynd i Eisteddfod?

Rhonwen: Ydyn! Ni trwyddo. Yn y dawnsio gwerin.

A Ll: A'i Eisteddfod Y Fenni yw hi?

Osian: Na, Casnewydd.

A Ll: Eisteddfod yng Nghasnewydd! Gwych!

Rhonwen: Wel, Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen, Gwent, i fod yn gywir.

A Ll: Beth? Gwenynen Gwent? Ond... ond... dyna fy enw barddol i!

Osian: Mmm. Neis i gwrdd â chi Mrs Gwenynen Gwent?

A Ll: Na! Ffugenw yw Gwenynen Gwent – pan rwy'n cystadlu mewn Eisteddfodau.

Rhonwen: Roedd ffug enwau gyda ni yn yr Eisteddfod ysgol. Rose Datta oeddwn i.

Osian: Ac Ethan Ampadu oeddwn i. Ond Osian ydw i a dyma Rhonwen.

A Ll: Fy enw go iawn yw Augusta Hall. Mae'n hyfryd i gwrdd â chi. Mae eich Cymraeg yn fendigedig.

Rhonwen: Ni'n gorfod ymarfer am y Dawnsio Gwerin. Ni'n gorfod breichio i'r dde ac wedyn i'r chwith.

A Ll: Ardderchog. Rydw i'n dwlu ar ddawnsio gwerin. Fy

hoff ddawns i yw Rîl Llanofer. (*A Ll yn dechrau dawnsio gyda'r plant)*

Osian: Mae Mam yn dweud bod gen i ddwy droed chwith

Rhonwen: Anodd i brynu esgidiau te!

Osian: Ha ha!

A Ll: Rydw i wrth fy modd pan mae pawb yn dawnsio ym Mhlasty Llanofer.

Osian: Wyt ti'n mynd yno yn aml i ddawnsio?

A Ll: Dydw i ddim yn mynd yno. Rydw i'n byw yno.

Rhonwen: Byw mewn plasty! Waw! Byngalo yw tŷ ni.

Osian: Pwy sy'n byw yna i gyd?

A Ll: Wel mae fy ngŵr Benjamin yno weithiau. Ond mae'n gorfod mynd i Lundain yn aml. Aelod seneddol yw e. Fe gododd y tŵr mawr yno. Mae cloch tu fewn. Chi wedi clywed am y tŵr?

Rhonwen: Wrth gwrs Big Ben! Clywais i Big Ben pan es i ar daith bws yn Llundain yn yr haf. Ding dong ding dong

Rhonwen ac Osian Ding dong ding dong!

Osian: Roedd eich gŵr wedi creu Big Ben! Cŵl!

Rhonwen: Beth arall sy'n digwydd yn y plasty?

A Ll: Weithiau mae telynorion yn dod i berfformio i ni.
Ydych chi'n chwarae'r delyn?

Rhonwen: Na. Ukulele.

Osian: Triais i'r recorder – ond roedd Mam yn cwyno am ben tost.

Rhonwen: Trueni.

A Ll: Bydd rhaid i fi fynd mae'n flin gen i.
Rydw i'n mynd i farchogaeth ar geffyl fy nhad.

Rhonwen: Marchogaeth

Osian: Dawnsio gwerin

Rhonwen: Creu gwisg Gymreig

Osian: Dysgu siarad Cymraeg

Rhonwen: Cystadlu yn yr Eisteddfod

Osian: Byw yn Llanofer

Rhonwen: Mae'r enw yn siwtio i'r dim. Gwenynen Gwent wyt ti!

A Ll: Wna i ddweud mwy wrthoch chi yfory.

Rhonwen: Yfory? Beth sy'n digwydd yfory?

A Ll: (*yn tynnu ei het yn dangos ei bod yn actores*)
Wel dyna pryd rwy'n gwneud fy sioe "mewn cymeriad" go iawn – ond roedd yn hyfryd i gwrdd â chi'ch dau heddiw – a chael ymarfer bach!

Osian: Ni'n edrych ymlaen at weld y sioe. Hyd yn oed os dyw hi ddim am Gareth Bale.

Rhonwen: Ac yn edrych ymlaen at

Pawb: Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen, Gwent!

Rhodri Harries
Carys Glyn